

Annwyl Randdeiliad,

Par: Etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu (Ardal Heddlu Gwent) – 6 Mai 2021

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ar gyfer Ardal Heddlu Gwent, ysgrifennaf i roi gwybodaeth allweddol a dyddiadau perthnasol ar gyfer Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddydd Iau 6 Mai 2021.

Cyflwyniad

Mae pedair ardal heddlu yng Nghymru sef De Cymru, Gwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Mae Gwent yn cynnwys ardal weinyddol pump Awdurdod Unedol – Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen.

Caiff proses yr Etholiad ei llywodraethu gan dermau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012 a gwahanol ofynion deddfwriaethol a chanllawiau eraill. Caf fy nghynorthwyo yn fy nyletswyddau gan bedwar Swyddog Canlyniadau Lleol (SCLI) yn yr awdurdodau eraill sydd hefyd yn ddarostyngedig i ofynion a chanllawiau deddfwriaethol cenedlaethol.

Rôl SCAH

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal rwy'n bennaf gyfrifol am redeg etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Ardal Gwent ac am gydlynu gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol yn Ardal Heddlu Gwent. Rwyf hefyd yn gyfrifol am roi hysbysiad o'r etholiad, y drefn enwebu, annog cyfranogiad, sicrhau fod anerchiadau ymgeiswyr yn cyflawni gofynion ac y cydymffurfir â'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno'r anerchiadau hynny, coladu cyfansymiau lleol a chyfrif y canlyniad ac yn olaf ddatgan y canlyniad.

Rôl SCLI

Mae Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am sicrhau y caiff yr etholiad ei weinyddu'n effeithlon yn eu hardal bleidleisio yn cynnwys darparu gorsafoedd pleidleisio, argraffu papurau pleidleisio, penodi staff gorsafoedd pleidleisio, rhedeg y bleidlais,

rheoli'r broses pleidleisiau post, gwirio'r cyfrif yn eu hardal bleidleisio a throsglwyddo'r cyfansymiau lleol i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.

Etholiad Cyfunol

Yng Nghymru, bydd Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn 2021 yn cael eu cyfuno ag Etholiadau'r Senedd, ac rwyf wedi cael fy mhenodi'n Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Canol De Cymru o ran yr etholiadau hyn.

Dyddiadau Allweddol

Dyddiad	Digwyddiad
Dydd Mawrth 16 Mawrth 2021 (4pm)	Sesiwn wybodaeth i Ymgeiswyr ac Asiantiaid
Dydd Llun 22 Mawrth 2021	Hysbysiad Etholiad
Dydd Mawrth 23 Mawrth 2021 i ddydd Iau 8 Ebrill 2021 (Rhwyng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith)	Cyflwyno papurau enwebu
Dydd Iau 8 Ebrill 2021 (Erbyn hanner dydd)	Cyflwyno Cyfeiriad yr Etholiad
Dydd Gwener 9 Ebrill 2021	Datganiad am y Sawl a Enwebwyd a chyhoeddi Hysbysiad Pleidleisio.
Dydd Llun 19 Ebrill 2021	Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru
Dydd Mawrth 20 Ebrill 2021 (5pm)	Dyddiad cau ar gyfer derbyn neu newid ceisiadau am bleidleisiau
Dydd Mawrth 27 Ebrill 2021 (5pm)	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidleisiau drwy ddirprwy
Dydd Iau 6 Mai 2021	Diwrnod Pleidleisio
Dydd Gwener 7 Mai 2021 (Dechrau erbyn 10am)	Gwirio ar gyfer Senedd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dydd Sul 9 Mai 2021 (Dechrau erbyn 10am)	Cyfrif pleidleisiau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac yna datganiad o'r canlyniadau

Mae amserlen gyfunol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Senedd wedi'i hatodi.

<https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/2021-02/Senedd%20PCC%20Timetable%20W.doc>

Ymgeiswyr ac Asiantiaid

Mae gwefan arbennig ar gael sy'n rhoi gwybodaeth hanfodol ar gyfer Ymgeiswyr ac Asiantiaid, a chaiff ei diweddarau maes o law gyda ffurflenni y gellir eu lawrlwytho (yn cynnwys y pecyn enwebu) a diweddariadau gan Swyddog Canlyniadau yr Ardal Heddlu. <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/pleidleisio-ac-etholiadau/>

Cynhelir sesiwn wybodaeth ddydd Mawrth 16 Mawrth 2021 a 16.00 drwy Microsoft Teams. Caiff hyn ei fynychu gan Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu Gwent, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, cynrychiolydd o'r Comisiwn Etholiadol a finnu fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu. Bydd y sesiwn yn rhoi trosolwg i ymgeiswyr ac asiantiaid ac yn rhoi gwybodaeth hanfodol am yr weithdrefn enwebu, gwybodaeth pleidleisio, y broses wirio a chyfrif, gwariant ymgeiswyr a threuliau etholiad ac yn olaf rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a threfniadau ar gyfer datgan derbyn swydd ar gyfer yr ymgeisydd a etholir.

Mesurau Covid-19

Caiff nifer o fesurau eu rhoi ar waith a fydd yn newid golwg a naws yr etholiad hwn. Gallwch ddisgwyl gweld llawer o'r newidiadau rydych wedi dod i arfer â nhw dros y misoedd diwethaf mewn banciau, siopau a manau dan do eraill.

Mewn gorsafoedd pleidleisio a'r canolfannau gwirio a chyfrif bydd disgwyl i unigolion ddefnyddio'r diheintydd dwylo a ddarperir pan fyddant yn dod i mewn ac yn gadael a gwisgo gorchudd wyneb bob amser (oni bai eu bod wedi eu heithrio).

Gall mesurau ymbellhau cymdeithasol eraill fod ar waith hefyd megis systemau unffordd, rheoli ciwiau a sgriniau diogelwch clir â'r diben o sicrhau diogelwch yr holl randdeiliaid sy'n rhan o'r broses etholiad.

Dolenni a chysylltiadau defnyddiol

- Gwefan SCAH, Etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau (Ardal Heddlu Gwent) - <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/pleidleisio-ac-etholiadau/>
- Y Comisiwn Etholiadol - <https://www.electoralcommission.org.uk/>
- Michelle Morris, michelle.morris@blaenau-gwent.gov.uk – SCAH ar gyfer Ardal Heddlu Gwent a Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer Blaenau Gwent
- Christina Harrhy, harrhc@caerphilly.gov.uk – SCLI ar gyfer Caerffili
- Paul Matthews, PaulMatthews@monmouthshire.gov.uk – SCLI ar gyfer Sir Fynwy
- Beverly Owen, beverly.owen@newport.gov.uk – SCLI ar gyfer Casnewydd
- Lyndon Puddy, lyndon.puddy@torfaen.gov.uk – SCLI ar gyfer Torfaen

Diwrnod Pleidleisio

Cynhelir y bleidlais **ddydd Iau 6 Mai 2021 rhwng 7am a 10pm**. Bydd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am redeg y bleidlais a'r gorsafoedd pleidleisio yn eu hardal bleidleisio. Caiff papurau pleidleisio eu hargraffu gyda Marc Adnabod Unigryw unigol i bob ardal pleidleisio Swyddog Canlyniadau Lleol ynghyd â marc swyddogol a osodir gan Swyddog Canlyniadau yr Ardal Heddlu.

Gwirio a Chyfrif

Caiff gwirio a chyfrif Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ei gynnal mewn canolfannau cyfrif lleol ar draws ardal Gwent gyda Hyb Rhanbarthol ym Mlaenau Gwent yn y Canolfan Chwaraeon Glynebwy, Lime Avenue, Glynebwy NP23 6GL lle byddaf yn datgan canlyniad terfynol yr Etholiad. Mae'r broses i'w dilyn yn golygu bod angen datganiadau lleol o'r canlyniad ym mhob ardal awdurdod lleol a ddilyniir gan y prif ganlyniad wedi'i goladu ar gyfer Gwent.

Bydd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn Ardal Heddlu Gwent yn dechrau'r gwirio am 10am ddydd Gwener 7 Mai 2021. Bydd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am gyfathrebu cyfansymiau'r gwirio i fi. Ar ddiwedd pob gwiriad bydd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn sicrhau'r holl bapurau pleidleisio nes bydd y cyfrif yn dechrau.

Bydd y cyfrif yn cychwyn o 10am ddydd Sul 9 Mai 2021. Bydd manylion o pryd y bydd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn dechrau eu cyfrif ar gael ar wefan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu –

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/pleidleisio-ac-etholiadau/>

Rhagwelir y caiff y cyfrif ei weinyddu yn defnyddio'r system Pleidleisio Atodol (SV) ac felly os nad oes yr un ymgeisydd yn sicrhau 50% ac 1 bleidlais yn y cylch cyfrif cyntaf, bydd angen ail gylch cyfrif. Fel canlyniad, mae'n anodd amcangyfrif pa mor hir y bydd y broses gyfrif yn ei chymryd yn Ardal Heddlu Gwent.

Fel Swyddog Canlyniadau yr Ardal Heddlu byddaf yn rhoi diweddariadau rheolaidd yn yr Hyb Rhanbarthol drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn uniongyrchol i Swyddogion Canlyniadau Lleol drwy gydol y gwirio a hefyd y cyfrif.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth uchod o gymorth a'i bod yn nodi'r cynllunio dechreuol tuag at etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau effeithlon ac effeithiol yn Ardal Heddlu Gwent. Os ydych chi angen mwy o wybodaeth edrychwch os gwelwch yn dda

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/pleidleisio-ac-etholiadau/> neu gysylltu ag Audra Williams, Rheolwr Gwasanaeth – Cofrestru, Etholiadau a Chwynion Corfforaethol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Ffôn: 01495 355087 e-bost: audra.williams@blaenau-gwent.gov.uk). Rwyf hefyd yn gofyn i Swyddogion Canlyniadau Lleol wneud y llythyr hwn ar gael yn fwy eang fel y gwelant yn dda e.e. i Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol.

Yn gywir iawn

M.A. Morris

Michelle Morris
Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu Gwent